Llinell Gymorth Byw Heb Ofn | Live Fear Free Helpline

**0808 80 10 800**

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Mae profion gwyryfdod a hymenoplasti bellach yn ANGHYFREITHLON

Mae bellach yn anghyfreithlon cynnal, cynnig neu helpu mewn unrhyw ffordd gyda phrofion gwyryfdod a hymenoplasti mewn unrhyw ran o'r DU, fel rhan o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022.

**Ffurfiau o drais yn erbyn menywod a merched yw profion gwyryfdod a hymenoplasti ac maent yn ffurf o drais ar sail anrhydedd.**

Mae menywod a merched yn cael eu cymell, eu gorfodi a'u cywilyddio i fynd drwy'r triniaethau hyn er mwyn cyflawni'r gofyniad bod menyw yn parhau i fod yn 'bur' cyn priodi.

Fodd bynnag, does dim archwiliad hysbys sy'n gallu profi a yw menyw yn wyryf.

Gall yr arferion hyn fod yn ddiraddiol ac yn rhywbeth sy'n mynd yn groes i ddymuniad yr unigolyn. Gallant arwain at drawma seicolegol eithafol, a gallant ysgogi cyflyrau gan gynnwys gorbryder, iselder ac anhwylder straen wedi trawma. Gallant fod yn niweidiol yn gorfforol hefyd.

Mae'r arferion hyn yn aml yn digwydd y tu ôl i ddrysau caeëdig.

Yn aml gall gymryd blynyddoedd lawer i ddioddefwyr siarad am eu profiad. Gan fod yr arfer hwn yn anghyfreithlon, **NI ALL** menywod gydsynio iddo.

Ers mis Gorffennaf 2022, mae uchafswm dedfryd o 5 mlynedd o garchar a/neu ddirwy ddiderfyn ar gyfer y troseddau hyn.

Rydym am rymuso dioddefwyr a chymunedau i amddiffyn menywod, merched ac unrhyw bobl sydd mewn perygl o niwed yn sgil yr arferion hyn yng Nghymru.

**Os ydych chi, neu rywun rydych chi'n ei adnabod mewn perygl o orfod cael profion gwyryfdod neu hymenoplasti, gallwch roi gwybod am eich pryderon a chael cyngor a chymorth gan:**

**Yr Heddlu**: **999** mewn argyfwng neu **101** i gysylltu â'ch heddlu lleol os nad yw'r dioddefwr mewn perygl uniongyrchol.

**Llinell Gymorth Byw Heb Ofn**: 0808 80 10 800

**BAWSO**: 0800 731 8147

**KARMA NIRVANA**: 0800 5999 247

**Yr Uned Priodasau dan Orfod**
**Eich meddyg teulu, nyrs, ysbyty, Gwasanaethau Cymdeithasol neu ddarparwr addysg lleol**

OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG45900
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg